

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) ("y Bil") gan George Eustice AS yn Nhŷ'r Cyffredin a rhoddwyd y Darlleniad Cyntaf iddo ar 8 Mehefin 2021. Gellir cael copi o'r Bil yn:

<https://bills.parliament.uk/bills/2880>

Amcan(ion) Polisi

3. Amcan polisi datganedig y Bil yw gwneud darpariaethau i gyflawni nifer o ddiwygiadau sy'n ymwneud â lles anifeiliaid a gedwir gan gynnwys anifeiliaid fferm, anifeiliaid anwes ac anifeiliaid gwyllt a gedwir.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
5. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth yn y meysydd canlynol:

Rhan 1 ac Atodlenni 1 – 4: Primatiaid;

Rhan 2 – Cŵn sy'n ymosod ar dda byw neu'n eu poeni;

Rhan 3 – Darpariaethau eraill ynglŷn ag anifeiliaid a gedwir:

- a. Cymalau 42 a 43 – Allforio anifeiliaid byw: gwahardd allforio i'w cigyddda etc;
- b. Cymal 44 – Pŵer i ddiwygio neu ddirymu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir (rheoliadau i hybu lles anifeiliaid);
- c. Cymal 45 – Lleihau'r terfyn ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol;
- d. Cymal 46 – Pwerau sy'n ymwneud â mewnfario cŵn, cathod a ffuredau penodol;
- e. Cymal 47 (ac Atodlen 5) – Sŵau

Rhan 4: Cyffredinol.

6. Fel y nodir uchod, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i gyflawni nifer o ddiwygiadau sy'n ymwneud â lles anifeiliaid a gedwir, gan gynnwys anifeiliaid fferm, anifeiliaid anwes, ac anifeiliaid gwyllt a gedwir.

7. Ar gyfer anifeiliaid sy'n cael eu ffermio, mae'r Bil yn gwahardd allforio gwartheg, defaid, moch, geifr a cheffylau byw i'w cigyddu, gan gynnwys ar gyfer pesgi i'w cigyddu wedyn.
8. Mae'r Bil yn diddymu ac yn disodli Deddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953 mewn perthynas â Chymru a Lloegr gyda set newydd o ddarpariaethau i fynd i'r afael â mater cŵn yn ymosod ar dda byw neu'n eu poeni. Mae'r Bil yn ehangu'r diffiniad o dda byw sy'n cael eu diogelu a'r meysydd lle mae'r pŵerau'n gymwys. Mae hefyd yn ymgorffori ystod o orchmynion ategol y caiff y Llysoedd eu gwneud i ddarparu dulliau effeithiol o fynd i'r afael ag aildroseddu yn yr achosion mwyaf difrifol o boeni da byw.
9. Ar gyfer anifeiliaid anwes, mae'r Bil yn mynd i'r afael â mewnfurion cŵn bach anghyfreithlon drwy gyflwyno pŵer galluogi i osod cyfyngiadau ar fewnforio anifeiliaid anwes penodol (cŵn, cathod a ffuredau) ar sail lles drwy is-ddeddfwriaeth. Mae'r Bil hefyd yn lleihau nifer yr anifeiliaid anwes (cŵn, cathod a ffuredau) sy'n gallu teithio mewn un symudiad anfasnachol.
10. Ar gyfer anifeiliaid gwyllt a gedwir, mae'r Bil yn gwahardd cadw, bridio, gwerthu a throsglwyddo primatiaid heb drwydded primatiaid benodol i sicrhau eu bod yn cael eu cadw i safon lles uchel sy'n adlewyrchu eu hanghenion lles penodol. Mae'r ddarpariaeth hon yn gymwys mewn perthynas â Lloegr yn unig.
11. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 i gynyddu cosbau am beidio â chydymffurfio a rhoi gwell dulliau gorfodi i awdurdodau lleol sicrhau bod gweithredwyr sŵau yn cydymffurfio â Safonau ar gyfer Arferion Sŵau Modern Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
12. Mae'r Bil hefyd yn diwygio Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 i alluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r safonau ar gyfer y gofynion cadwraeth y mae'n rhaid i sŵau gydymffurfio â hwy, a fydd yn fodd i sicrhau bod sŵau yn mabwysiadu gofynion cadwraeth cryfach ac y gellir diweddarau'r gofynion hyn yn amlach.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

13. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau canlynol y Bil oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig.

Rhan 2 – Cŵn sy'n ymosod ar dda byw neu'n eu poeni

Cymal 26: Trosedd pan fo ci yn ymosod ar dda byw neu'n eu poeni

14. Mae'r cymal hwn yn darparu y bydd person sy'n berchen ar gi neu sydd â chyfrifoldeb dros gi yn euog o drosedd os yw'r ci yn ymosod ar dda byw neu'n eu poeni ar unrhyw dir amaethyddol neu ffordd, llwybr neu ymyl ohono.

15. Mae is-adran (2) yn darparu na fydd person yn euog o drosedd os yw'r da byw yn tresmasu ar dir amaethyddol ac mae'r ci yn eiddo i'r person sy'n feddiannydd y tir neu mae gan feddiannydd y tir gyfrifoldeb dros y ci, oni bai bod y meddiannydd yn peri i'r ci ymosod ar y da byw.
16. Mae is-adran (3) yn yr un modd yn darparu os yw'r da byw wedi crwydro ar ffordd neu lwybr o le y cânt eu cadw ar adeg y digwyddiad, na fydd y person sy'n berchen ar y ci neu sydd â chyfrifoldeb dros y ci yn euog o drosedd oni bai ei fod yn peri i'r ci ymosod ar y da byw.
17. Mae is-adran (4) yn nodi os gall perchennog y ci brofi ar yr adeg yr ymosododd y ci ar y da byw neu eu poeni fod person arall yn gyfrifol amdano, na fydd yn euog o drosedd o dan y cymal hwn.
18. Mae is-adran (5) yn darparu y bydd person a geir yn euog o drosedd o dan y cymal hwn yn agored i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Mae is-adran (6) yn cyfeirio at orchmynion o dan Ran 2 o'r Bil y gellir eu gosod ar berson sy'n euog o drosedd p'un ai yn ychwanegol at ddirwy ai peidio.
19. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 27: Ymafael mewn cŵn a'u gadw'n gaeth

20. Mae'r cymal hwn yn nodi o dan ba amgylchiadau y caiff swyddog heddlu ymafael mewn ci a'i gadw'n gaeth mewn perthynas â'r drosedd o ymosod ar dda byw neu eu poeni.
21. Mae isadrannau (2) a (9) yn nodi o dan ba amgylchiadau y mae perchennog ci sy'n cael ei gadw'n gaeth yn atebol i dalu treuliau a ysgwyddwyd oherwydd bod y ci yn cael ei gadw'n gaeth.
22. Mae isadrannau (3) a (4) yn esbonio'r hyn y gellir ei wneud i unrhyw gi yr ymafaelir ynddo o dan is-adran (2) os na chaiff ei hawlio ar ôl saith niwrnod.
23. Mae isadrannau (5) a (6) yn nodi'r gofynion ar gyfer cofrestr o'r holl gŵn yr ymafaelir ynddynt o dan is-adran (2) y mae'n rhaid i brif swyddog yr heddlu ar gyfer pob ardal heddlu eu cadw, neu beri iddynt gael eu cadw.
24. Mae is-adrannau (7) ac (8) yn esbonio o dan ba amgylchiadau y caiff yr heddlu ymafael mewn ci, a'i gadw'n gaeth, y maent yn credu sy'n peri risg o ymosod ar dda byw eto neu eu poeni eto, os nad yw'r ci'n cael ei gadw'n gaeth.
25. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran materion

datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 28: Casglu samplau ac olion

26. Mae'r cymal hwn yn galluogi swyddog heddlu i gymryd samplau neu olion gan gi neu dda byw lle gallai hyn ddarparu tystiolaeth bod trosedd yn cael ei chyflawni o dan gymal 26.
27. Mae is-adran (5) yn darparu os byddai'r weithred o gymryd sampl yn gofyn am weithredu drwy lawdriniaeth filfeddygol, rhaid iddi gael ei gwneud gan filfeddyg ac mae is-adran (6) yn esbonio pa mor hir y gellir cadw samplau ac olion.
28. Mae is-adran (7) yn nodi'r diffiniadau sy'n berthnasol i'r cymal hwn gan gynnwys diffiniadau o sampl ("sample") a milfeddyg ("veterinary surgeon").
29. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 29: Pŵer ynadon heddwch i awdurdodi mynediad a chwilio

30. Mae'r cymal hwn yn nodi os bydd cwnstabl yn gwneud cais i ynad heddwch, a bod ganddo sail resymol dros gredu bod trosedd wedi'i chyflawni, caiff yr ynad heddwch roi gwarant sy'n awdurdodi cwnstabl i fynd i mewn i'r fangre a chwilio'r fangre er mwyn canfod y ci, ymafael yn y ci a'i gadw'n gaeth neu gymryd samplau, argraffiadau neu ymafael mewn unrhyw dystiolaeth arall o'r drosedd y gellir dod o hyd iddi. Mae is-adran (5) yn darparu y caiff gwarant o dan y cymal hwn awdurdodi'r cwnstabl i ddefnyddio grym rhesymol os oes angen.
31. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 30: Gorchymyn rheoli yn dilyn euogfarn o dan adran 26

32. Mae'r cymal hwn yn darparu, os caiff person euogfarn am drosedd o dan gymal 26 o'r Bil, a bod y Llys yn fodlon bod y troseddwr wedi methu â sicrhau bod y ci perthnasol wedi cael ei gadw o dan reolaeth briodol ar adeg y drosedd, caiff y Llys wneud Gorchymyn Rheoli sy'n pennu un neu ragor o fesurau y mae'n rhaid i'r troseddwr, perchennog y ci neu'r ddau ddilyn i sicrhau bod y ci yn cael ei gadw dan reolaeth briodol yn y dyfodol.
33. Wrth wneud gorchymyn o'r fath, rhaid i'r Llys nodi ei resymau dros wneud hynny y mae'n rhaid eu cynnwys yn y gofrestr o'i drafodion.

34. Mae is-adran (4) yn nodi, os nad yw'r troseddwr yn berchennog y ci perthnasol, mai dim ond os yw'r perchennog yn cael cyfle i gael ei glywed y caiff y llys wneud gorchymyn rheoli, oni bai bod y llys wedi'i fodloni nad yw'n rhesymol ymarferol cyfathrebu â'r perchennog. Mae is-adran (6) yn nodi y caiff y troseddwr yn ogystal â pherchennog y ci apelio yn erbyn gorchymyn rheoli i Lys y Goron.
35. Mae is-adrannau 30(7) ac (8) yn darparu bod person sy'n torri gorchymyn rheoli yn cyflawni trosedd ac yn agored i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.
36. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 31: Gorchymyn difa yn dilyn euogfarn o dan adran 26

37. Mae'r cymal hwn yn darparu pan fydd person yn cael euogfarn am drosedd o dan gymal 26 a bod y Llys yn fodlon bod y ci perthnasol yn peri risg o ymosod ar dda byw neu eu poeni eto, caiff y Llys orchymyn i'r ci perthnasol gael ei ddifa ("a destruction order"). Wrth wneud gorchymyn difa, rhaid i'r Llys nodi ei resymau dros wneud hynny y mae'n rhaid eu cynnwys yn y gofrestr o'i drafodion.
38. Mae is-adran (3) yn darparu os nad yw'r troseddwr yn berchennog y ci perthnasol, mai dim ond os yw wedi rhoi cyfle i berchennog y ci perthnasol gael ei glywed, neu os yw'n fodlon nad yw'n rhesymol ymarferol cyfathrebu â'r perchennog, y caiff y llys wneud gorchymyn difa. Mae is-adran (5) yn nodi y caiff y troseddwr yn ogystal â pherchennog y ci apelio yn erbyn gorchymyn difa i Lys y Goron.
39. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 32: Gorchymyn anghymhwysio yn dilyn euogfarn o dan adran 26 neu dorri gorchymyn rheoli

40. Mae cymal 32 yn darparu pan fydd person yn cael euogfarn am drosedd o dan gymalau 26 neu 30(7) y caiff y Llys wneud gorchymyn ("a disqualification order") sy'n anghymhwysio'r troseddwr, am unrhyw gyfnod y mae'r Llys yn credu ei fod yn addas, rhag bod yn berchen ar gŵn, cadw cŵn, neu'r ddau. Wrth wneud gorchymyn anghymhwysio, rhaid i'r Llys nodi ei resymau dros wneud hynny y mae'n rhaid eu cynnwys yn y gofrestr o'i drafodion.
41. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff gorchymyn anghymhwysio bennu cyfnod pan na chaniateir i'r troseddwr wneud cais i derfynu'r gorchymyn.

42. Mae is-adran (4) yn darparu os yw'n ymddangos i'r Llys bod y troseddwr yn berchen ar gi neu'n cadw ci, y caiff y Llys atal gweithredu'r gorchymyn anghymhwysu dros dro cyhyd ag y bo'n credu bod angen i alluogi i drefniadau amgen gael eu gwneud ar gyfer y ci.
43. Mae is-adrannau (6) a (7) yn darparu bod person sy'n torri gorchymyn anghymhwysu yn cyflawni trosedd ac yn agored i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.
44. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 33: Ymafael mewn cŵn a'u gwaredu mewn cysylltiad â gorchymyn anghymhwysu

45. Mae cymal 33 yn darparu pan fydd Llys yn gwneud gorchymyn anghymhwysu, os yw'n ymddangos bod y person y mae'r gorchymyn yn berthnasol iddo yn berchen ar gi neu'n cadw ci, y caiff y Llys orchymyn y gellir tynnu'r ci oddi arno.
46. Mae is-adran (2) yn darparu pan fo person yn cael euogfarn am drosedd oherwydd ei fod yn berchen ar gi neu'n cadw ci yn groes i orchymyn anghymhwysu, y caiff y Llys orchymyn y gellir tynnu pob ci y mae'n berchen arno neu a gedwir yn groes i'r gorchymyn oddi wrthynt. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i orchymyn sy'n ymwneud ag unrhyw gi sy'n eiddo i berson sy'n ddarostyngedig i'r gorchymyn anghymhwysu gynnwys trefniadau ar gyfer gwaredu'r ci.
47. Mae is-adran (4) yn darparu bod yn rhaid ymdrin â chi sy'n cael ei gymryd i feddiant wrth gyflawni gorchymyn nad yw'n eiddo i'r person sy'n ddarostyngedig i'r gorchymyn anghymhwysu yn unol â'r gorchymynion a roddir gan y Llys priodol.
48. Mae is-adran (5) yn nodi na chaiff llys wneud gorchymyn i waredu'r ci o dan is-adran (4) oni bai ei fod wedi rhoi cyfle i berchennog y ci gael ei glywed, neu os yw wedi'i fodloni nad yw'n rhesymol ymarferol cyfathrebu â'r perchennog. Mae is-adran (6) yn nodi pan wneir gorchymyn i waredu'r ci o dan is-adran (4) yn erbyn person nad yw'n berchennog, y caiff perchennog y ci apelio i Llys y Goron yn erbyn y gorchymyn.
49. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 34: Terfynu gorchymyn anghymhwysu

50. Mae is-adran (1) yn nodi y caiff person sy'n ddarostyngedig i orchymyn anghymhwysu wneud cais i Llys priodol i'r gorchymyn gael ei derfynu.

Mae is-adran (2) yn nodi pa bryd y caniateir gwneud ceisiadau, mae is-adran (3) yn darparu pwerau'r Llys mewn perthynas â chais ac mae is-adran (4) yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r Llys ei ystyried wrth ystyried cais.

51. Mae is-adran (5) yn darparu os yw'r Llys yn gwrthod cais neu'n newid gorchymyn anghymhwys yn dilyn cais o'r fath, caiff bennu cyfnod pan na chaiff y ceisydd wneud cais pellach o dan yr is-adran honno mewn perthynas â'r gorchymyn o dan sylw.
52. Mae is-adran (6) yn esbonio y caiff y Llys orchymyn i geisydd dalu holl gostau cais neu ran ohonynt.
53. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 35: Adrannau 31 a 33: atodol

54. Mae is-adran (1) yn nodi'r hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn difa.
55. Mae is-adrannau (2) a (3) yn darparu bod person sy'n methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir o dan orchymyn difa yn cyflawni trosedd ac yn agored i dalu dirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.
56. Mae is-adran (4) yn nodi y caiff cyfarwyddydau bennu sut y mae ci i gael ei waredu neu ddirprwyo'r penderfyniad ynghylch sut y mae ci i gael ei waredu i berson a benodir o dan y gorchymyn. Wrth wneud penderfyniadau o'r fath, mae is-adrannau (5) a (6) yn darparu y dylai'r llys neu'r person penodedig ystyried yr angen i ddiogelu gwerth unrhyw gi a'r angen i osgoi cynyddu unrhyw dreuliau y gellir gorchymyn person i'w talu.
57. Mae is-adran (7) yn darparu y caniateir i unrhyw swm y mae gan y perchennog hawl iddo o ganlyniad i werthu'r ci gael ei ostwng yn ôl swm y taliad hwnnw.
58. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 36: Gorchymynion rheoli, difa ac anghymhwys: apeliadau

59. Mae is-adran (1) yn nodi na chaniateir gwneud dim i gi o dan orchymyn oni bai bod y cyfnod ar gyfer rhoi hysbysiad o apêl yn erbyn y gorchymyn wedi dod i ben, bod y cyfnod ar gyfer rhoi hysbysiad o apêl yn erbyn yr euogfarn y gwnaed y gorchymyn yn ei dilyn wedi dod i ben,

ac os apelir yn erbyn y gorchymyn neu'r euogfarn, mae'r apêl wedi'i phenderfynu neu ei thynnu'n ôl.

60. Mae is-adran (2) yn darparu os atalir gorchymyn dros dro nad yw unrhyw ofynion a osodwyd neu unrhyw gyfarwyddydau a roddwyd mewn cysylltiad â'r gorchymyn yn cael unrhyw effaith, ond caiff y llys roi cyfarwyddydau ynghylch sut yr ymdrinnir â'r ci yn ystod yr ataliad dros dro.
61. Mae is-adran (3) yn nodi'r hyn y caniateir ei nodi mewn cyfarwyddydau.
62. Mae is-adrannau (4) a (5) yn nodi bod person sy'n methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir o dan is-adran (3) yn cyflawni trosedd ac yn agored i dalu dirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.
63. Mae is-adran (6) yn nodi y caniateir adennill unrhyw dreuliau y cyfeirir person i'w talu o dan Ran 2 o'r Bil fel dyled sifil.
64. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 37: Sut y mae'n gymwys i'r Goron

65. Mae'r cymal hwn yn nodi sut y mae Rhan 2 o'r Bil yn rhwymo'r Goron.
66. Mae is-adran (2) o'r cymal hwn yn nodi nad yw'r Goron yn droseddol atebol o dan Ran 2, ond mae is-adran (3) yn darparu ei bod yn gymwys i bersonau sy'n gwasanaethu'r Goron yn yr un modd ag y mae'n gymwys i bersonau eraill.
67. Mae is-adran (4) yn nodi, mewn amgylchiadau lle y byddai'r Goron yn droseddol atebol o dan y Ddeddf, ac eithrio is-adran (2), y caiff yr Uchel Lys wneud datganiad am y mater.
68. Mae is-adran (5) yn darparu, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn ardystio na ddylid, er budd diogelwch cenedlaethol, arfer y pwerau mynediad a roddir yn Rhan 2 mewn perthynas â mangreoedd y Goron a bennir yn y dystysgrif, na cheir arfer y pwerau hynny mewn perthynas â'r mangreoedd hynny.
69. Mae is-adran (6) yn diffinio mangreoedd y Goron ("Crown premises") fel mangreoedd sy'n cael eu dal, neu eu defnyddio, gan neu ar ran y Goron.
70. Mae is-adran (7) yn esbonio na cheir arfer unrhyw bŵer mynediad a roddir gan y Ddeddf mewn perthynas â thir sy'n eiddo i'w Mawrhydi. Mae is-adran (8) yn darparu bod y cyfeiriad hwn at ystadau preifat Ei Mawrhydi ("Her Majesty's private estates") i'w ddiffinio yn unol ag adran 1 o Ddeddf Ystadau Preifat y Goron 1862.

71. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â darpariaethau yn y Bil y bernir eu bod wedi eu datganoli.

Cymal 38: Rheoliadau

72. Mae is-adran (1) o'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau a wneir o dan Ran 2 o'r Bil gael eu gwneud drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff y rheoliadau gynnwys darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed ac mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r weithdrefn gadarnhaol gael ei defnyddio ar gyfer unrhyw reoliadau a wneir o dan Ran 2.

73. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â darpariaethau yn y Bil y bernir eu bod wedi eu datganoli.

Cymal 39: Ystyr poeni da byw ("worrying livestock")

74. Mae is-adran (1) yn diffinio poeni da byw at ddibenion Rhan 2. Mae is-adran (2) yn rhestru'r mathau o gŵn sy'n cael eu hesemptio rhag cyflawni'r drosedd o fod yn rhydd mewn cae neu dir caeedig lle mae da byw perthnasol.

75. Mae is-adran (3) yn diffinio ystyr bod yn rhydd ("at large") ac mae is-adran (4) yn diffinio ystyr da byw perthnasol ("relevant livestock").

76. Mae is-adran (5) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio'r diffiniad o dda byw perthnasol drwy gyfrwng rheoliadau a wneir o dan y weithdrefn gadarnhaol.

77. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran darpariaethau yn y Bil y bernir eu bod wedi eu datganoli.

Cymal 40: Dehongli Cyffredinol

78. Mae is-adran (1) yn diffinio termau a ddefnyddir yn y Ddeddf hon, gan gynnwys tir amaethyddol ("agricultural land"), gorchymyn difa ("destruction order"), gorchymyn anghymhwyso ("disqualification order", adar hela caeedig ("enclosed gamebirds") a da byw ("livestock").

79. Mae is-adran (3) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio'r diffiniad o dda byw drwy gyfrwng rheoliadau a wneir o dan y weithdrefn gadarnhaol.

80. Mae is-adran (2) yn esbonio bod cyfeiriadau at waredu ci yn cynnwys ei ddifa, ond nad ydynt yn cynnwys ei waredu at ddibenion bywddyraniad (cynnal llawdriniaeth ar anifail byw ar gyfer ymchwil wyddonol neu ar gyfer arbofi).

81. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran darpariaethau yn y Bil y bernir eu bod wedi eu datganoli.

Cymal 41: Diddymu Deddf 1953 yng Nghymru a Lloegr

82. Mae'r cymal hwn yn diddymu Deddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953 yng Nghymru a Lloegr.

83. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran materion sydd wedi eu datganoli i'r graddau y mae'n berthnasol i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Rhan 3 – Darpariaethau Eraill ynglŷn ag Anifeiliaid a Gedwir

Allforio da byw

Cymal 42: Gwahardd allforio da byw i'w cigyddu etc

84. Mae is-adran (1) yn gwahardd allforio da byw perthnasol o Brydain Fawr i'w cigyddu ac mae is-adran (2) yn gwneud mynd yn groes i'r gwaharddiad hwn yn drosedd.

85. Mae is-adran (3) yn disgrifio allforion (“exports”) at ddibenion penderfynu a yw person wedi mynd yn groes i'r gwaharddiad yn is-adran (1), ac mae is-adran (4) yn diffinio i'w cigyddu (“for slaughter”), sy'n cynnwys allforio anifeiliaid perthnasol er mwyn iddynt gael eu cigyddu neu eu pesgi i'w cigyddu.

86. Mae is-adran (5) yn darparu bod person sy'n cyflawni trosedd o dan y cymal hwn yng Nghymru a Lloegr yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i gael ei garcharu am hyd at 51 wythnos, i ddirwy neu'r ddau. Mae is-adran (6) yn darparu, hyd nes y daw adran 281(5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 i rym, y dylai'r cyfnod yn y carchar, os bydd rhywun yn cyflawni trosedd yng Nghymru neu Loegr o dan y cymal, yn 6 mis yn hytrach nag yn 51 wythnos.

87. Mae is-adran (7) yn diffinio da byw perthnasol (“relevant livestock”) at ddibenion y cymal.

88. Mae is-adran (8) yn diddymu adrannau 40 i 49 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (sy'n ymwneud ag allforio ceffylau) ac yn gwneud diwygiadau eraill i'r Ddeddf honno sy'n ganlyniad i ddiddymu'r adrannau hynny.

89. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran materion sydd wedi eu datganoli i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 43: Pŵer i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â gorfodi adran 42

90. Mae is-adran (1) o'r cymal hwn yn rhoi pŵer i'r awdurdod cenedlaethol priodol (Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu ar ôl cael cydsyniad Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru) wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer gorfodi'r gwaharddiad ar allforio anifeiliaid byw i'w cigydda. Yn rhinwedd cymal 49(6) ni chaniateir gwneud rheoliadau a wneir o dan y ddarpariaeth hon oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.
91. Mae is-adrannau (2) a (3) yn darparu rhestrau nad ydynt yn gynhwysfawr o'r hyn y caiff y rheoliadau hyn ei gwmpasu, sy'n cynnwys pwerau mynediad, pwerau ymafael neu bwerau cadw, creu troseddau, gosod cosbau ariannol neu sancsiynau sifil a phŵer i ddiwygio neu ddirymu unrhyw ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.
92. Mae is-adrannau (4) a (5) yn disgrifio ac yn egluro'r sancsiynau sifil ("civil sanctions") y ceir eu gosod o dan reoliadau sy'n ymwneud â gorfodi cymal 42. Mae is-adran (6) yn egluro cwmpas troseddau y ceir eu creu mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan is-adran (1).
93. Mae is-adran (7) yn cyfyngu ymhellach ar y rheoliadau rhag cynnwys darpariaethau ar roi pwerau mynediad heb gydsyniad y meddiannydd neu o dan awdurdod gwarant neu rhag cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu defnydd rhesymol o rym heb warant.
94. Mae is-adran (8) yn diffinio penodedig ("specified") at ddibenion y cymal.
95. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion sydd wedi eu datganoli i'r graddau y mae'n berthnasol i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Lles anifeiliaid a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir

Cymal 44: Pwerau i ddiwygio neu ddirymu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir

96. Mae is-adran (1) yn diwygio adran 12 o Ddeddf 2006 (rheoliadau i hyrwyddo lles) er mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i ddiwygio neu ddirymu, mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran honno, deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Mae is-adran (2) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r Alban ac nid yw'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig. Yn rhinwedd adran 61(2) o Ddeddf 2006, ni chaniateir gwneud rheoliadau a wneir o dan adran 12 oni bai bod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.
97. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 44(1) oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â

materion sydd wedi eu datganoli i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid.

Mewnforio cŵn, cathod a ffuredau

Cymal 45: Lleihau'r terfyn ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol

98. Mae'r cymal hwn yn diwygio Rheoliad (UE) Rhif 576/2013 yng nghyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir ac mewn rheoliadau cysylltiedig y DU er mwyn cyfyngu ar nifer y cŵn, cathod a ffuredau y ceir eu symud i Brydain Fawr ar sail anfasnachol.
99. Mae is-adran (2) yn mewnosod paragraff A1 newydd i Erthygl 5 o reoliad uchod yr UE er mwyn cyfyngu i bum anifail nifer y cŵn, cathod a ffuredau y ceir eu symud i Brydain Fawr mewn cerbyd modur.
100. Mae is-adran (3) yn diwygio paragraff 1 o reoliad yr UE uchod er mwyn cyfyngu o bump i dri nifer yr anifeiliaid anwes y caiff person fynd gydag ef wrth iddo deithio mewn unrhyw ffordd ac eithrio cerbyd modur (h.y. mewn awyren neu fel teithiwr troed ar drên neu fferi). Mae is-adrannau (4) a (5) yn gwneud newidiadau i reoliad yr UE o ganlyniad i'r diwygiadau a wneir gan is-adrannau (2) a (3).
101. Mae is-adran (6) yn mewnosod diffiniad o gerbyd modur ("motor vehicle") yn rheoliadau'r UE.
102. Mae is-adrannau (7) ac (8) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i reoliadau yn Lloegr a'r Alban sy'n darparu ar gyfer gorfodi rheoliadau'r UE ac nid yw'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig.
103. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 45(1)-(6) oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion sydd wedi eu datganoli i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid.

Cymal 46: Pwerau sy'n ymwneud â mewnforio cŵn, cathod a ffuredau penodol

104. Mae is-adran (1) o'r cymal hwn yn rhoi pwerau i'r awdurdod cenedlaethol priodol, at ddiben hyrwyddo lles anifeiliaid, wneud rheoliadau ynglŷn â mewnforio anifeiliaid perthnasol (cŵn, cathod neu ffuredau) i Brydain Fawr.
105. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff y rheoliadau yn benodol wahardd neu gyfyngu ar fewnforio anifeiliaid perthnasol sydd o dan oedran rhagnodedig, sydd wedi cael eu hanffurfio (e.e. ci â chynffon wedi'i docio neu glustiau wedi eu torri'n fyr) neu sy'n feichiog iawn.
106. Mae is-adran (3) yn caniatáu i reoliadau gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gorfodi ac mae is-adran (4) yn darparu y caiff y rheoliadau gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag anifeiliaid perthnasol a

fewnforir yn anghyfreithlon ac yr ymafaelir ynddynt a'u cadw, a chaiff wneud darpariaeth sy'n trosglwyddo perchnogaeth ar anifeiliaid o'r fath.

107. Mae is-adran (5) yn rhoi pwerau i wneud rheoliadau pellach i osod cosbau ariannol am droseddau o dan ddeddfiadau eraill sy'n ymwneud â lles neu iechyd anifeiliaid a fewnforir sy'n cael eu cwmpasu gan y cymal hwn.
108. Mae is-adran (6) yn darparu rhestr nad yw'n gynhwysfawr o ddarpariaethau y ceir eu cynnwys yn y rheoliadau, gan gynnwys rhoi swyddogaethau, cadw cofnodion, pwerau mynediad a chreu troseddau newydd.
109. Mae is-adran (7) yn cyfyngu ar y pŵer i greu troseddau newydd drwy bennu'r cosbau uchaf y ceir eu cynnwys yn y rheoliadau. Mae is-adran (8) yn cyfyngu ar bŵer mynediad a gyflwynir gan y rheoliadau.
110. Mae is-adran (8) yn diffinio deddfiad ("enactment"), wedi'i anffurfio ("mutilated"), rhagnodedig ("prescribed"), anifail perthnasol ("relevant animal") ac a fewnforiwyd yn anghyfreithlon ("unlawfully imported") at ddibenion y cymal hwn.
111. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion sydd wedi eu datganoli i'r graddau y mae'n berthnasol i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid.

Sŵau

Cymal 47 ac Atodlen 5: Sŵau

112. Mae is-adran (1) yn rhoi effaith i Atodlen 5 (Sŵau), sy'n nodi diwygiadau i Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981 ("Deddf 1981").
113. Mae is-adran (2) yn diwygio Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 er mwyn sicrhau bod y math penodol o lywodraeth leol ar gyfer Ynysoedd Scilly yn cael ei chynnwys yn y disgrifiad o awdurdodau lleol sy'n cael gorfodi'r Ddeddf honno.
114. Mae Atodlen 5 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 1981. Mae paragraffau 4-14 yn diwygio Deddf 1981 er mwyn dileu adran 1A sy'n pennu'r gofynion cadwraeth cyfredol. Mae paragraff 9 yn diwygio adran 9 o Ddeddf 1981 er mwyn darparu y caiff safonau a bennir o dan yr adran honno gynnwys safonau sy'n ymwneud â chadwraeth, ac y ceir cymhwyso safonau gwahanol i ddisgrifiadau gwahanol o sŵ (e.e. parc safari mawr neu acwariwm bach). Diwygir adran 5 o Ddeddf 1981 hefyd i'w gwneud yn ofynnol i bob trwydded a ddyroddir o dan y Ddeddf gynnwys amod lle y mae'n rhaid i'r sŵ gadw at y safonau a gynhrychir o dan adran 9 o Ddeddf 1981.
115. Mae paragraff 15 yn diwygio adran 8 o Ddeddf 1981 i ychwanegu trydedd ran at y rhestr y ceir tynnu arolygwyr ohoni at ddibenion

arolygiadau o dan Ddeddf 1981. Mae trydedd ran y rhestr yn cynnwys enwau arolygwyr sydd ag arbenigedd arbenigol mewn rhai rhywogaethau o anifeiliaid sy'n cael eu cadw mewn sŵ (yn hytrach na gwybodaeth gyffredinol am anifeiliaid o unrhyw fath y gellir eu cadw mewn sŵ).

116. Mae paragraff 16 yn darparu y ceir defnyddio arolygwyr o drydedd ran y rhestr ar gyfer arolygiadau cyfnodol o dan adran 10 o Ddeddf 1981. Mae paragraff 18 yn diwygio Deddf 1981 er mwyn cynyddu'r cosbau hynny yn y Ddeddf sydd, ar hyn o bryd, wedi eu gosod ar Lefel 3 o'r raddfa safonol (£1,000) i ddirwy Lefel 4 (£2,500) ar y raddfa safonol; a chynyddu'r cosbau hynny yn y Ddeddf sydd, ar hyn o bryd, wedi eu gosod ar Lefel 4 o'r raddfa safonol i ddirwy Lefel 5 ar y raddfa safonol (dirwy ddiderfyn yng Nghymru a Lloegr, £5000 yn yr Alban).
117. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn ac Atodlen 5 oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid.

Cyffredinol

Cymal 48: Ystyr awdurdod cenedlaethol priodol ("appropriate national authority") a deddfiad ("enactment")

118. Mae'r cymal hwn yn diffinio awdurdod cenedlaethol priodol a deddfiad at ddibenion y Rhan hon.
119. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â darpariaethau yn y Bil y bernir eu bod wedi eu datganoli.

Cymal 49: Rheoliadau o dan Ran 3

120. Mae'r cymal hwn yn nodi sut y mae'n rhaid arfer y pŵer i wneud rheoliadau. Mae is-adran (2) yn darparu bod yn rhaid i reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru gael eu gwneud drwy gyfrwng offeryn statudol. Mae is-adrannau (3), (4) a (5) yn ymwneud â Lloegr a'r Alban, ac nid ydynt yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion sydd wedi eu datganoli. Mae is-adran (6) yn darparu na chaiff Gweinidogion Cymru wneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan Ran 3 oni bai bod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddi.
121. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer is-adran (1), (2) a (6) o'r cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion sydd wedi eu datganoli i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru.

Rhan 4: Cyffredinol

Cymal 50: Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol

122. Mae is-adrannau (1) a (2) o'r cymal hwn yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n ganlyniad i unrhyw ddarpariaethau yn y Bil.
123. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau ac ynddynt ddarpariaethau canlyniadol sy'n gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol neu i brif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir gael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol ac mae is-adran (4) yn darparu y ceir defnyddio'r weithdrefn negyddol ym mhob achos arall. Mae is-adran (5) yn diffinio deddfwriaeth sylfaenol ("primary legislation") at ddibenion y cymal hwn.
124. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â darpariaethau yn y Bil y bernir eu bod wedi eu datganoli.

Cymal 51: Cychwyn

125. Mae is-adrannau (1), (2) a (4) o'r cymal hwn yn nodi pryd neu sut y daw pob darpariaeth yn y Bil i rym. Mae is-adran (3) yn diffinio awdurdod cenedlaethol priodol ("appropriate national authority") at ddibenion cychwyn darpariaethau amrywiol yn Rhan 3 o'r Bil; ystyr yr awdurdod cenedlaethol priodol mewn perthynas â Chymru yw Gweinidogion Cymru.
126. Mae is-adran (5) yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dod ag unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf i rym. Mae is-adran (6) yn darparu bod Gweinidogion yr Alban a Gweinidogion Cymru yn cael gwneud darpariaethau trosiannol neu arbed mewn cysylltiad â dod ag unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 3 i rym. Mae is-adran (7) yn darparu y caiff rheoliadau wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol ac mae is-adran (8) yn darparu bod yn rhaid i reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru gael eu gwneud drwy gyfrwng offeryn statudol. Rhaid i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 51 mewn cysylltiad â chychwyn darpariaethau gael eu gwneud drwy offeryn statudol ac nid ydynt yn ddarostyngedig i weithdrefn. Mae is-adran (9) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r Alban ac nid yw'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion sydd wedi eu datganoli.
127. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn i'r graddau ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â darpariaethau yn y Bil y bernir eu bod wedi eu datganoli, fel y disgrifir yn y memorandwm hwn.

Cymal 52: Rhychwant

128. Mae'r cymal hwn yn nodi rhychwant tiriogaethol pob darpariaeth yn y Bil. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn i'r graddau a ddisgrifir yn y memorandwm hwn.

Cymal 53: Teitl byr

129. Mae'r cymal hwn yn darparu mai teitl byr y Bil fydd Deddf Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) 2021 ("Animal Welfare (Kept Animals) Act 2021") unwaith y daw'n Ddeddf.
130. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion sydd wedi eu datganoli i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru.

Pwerau cydredol plws

131. Mae cymal 48 yn pennu mai'r "awdurdod cenedlaethol priodol" ar gyfer Cymru at ddibenion rheoliadau rhan 3 yw (1) Gweinidogion Cymru neu (2) yr Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu ar ôl cael cydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn creu swyddogaethau cydredol, a bydd, fel y'i drafftwyd, yn effeithio ar bwerau'r Senedd i wneud deddfwriaeth yn y maes hwn yn y dyfodol oherwydd y bydd yn ofynnol cael Cydsyniad Gweinidog y Goron i ddileu swyddogaeth gydredol yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r sefyllfa hon wedi codi mewn perthynas â deddfwriaeth arall ar gyfer y DU. Bydd angen eithriad rhag y cyfyngiadau perthnasol yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Y Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

132. Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU am resymau sy'n gysylltiedig ag amseru a chydlynu, sy'n hanfodol mewn perthynas â gorfodi ar draws ffiniau a rheoli ffiniau.
133. At ei gilydd, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftwyd. Mae materion heb eu datrys o hyd a fydd yn cael eu trafod wrth i'r Bil fynd ar ei hynt. Fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, nid yw Rhan 1 o'r Bil (Primatiaid) yn gymwys i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r darpariaethau hyn gael eu hestyn fel ei bod yn gymwys mewn perthynas â Chymru, ar yr amod bod Gweinidogion Cymru yn cael pwerau mewn perthynas â Chymru sy'n cyfateb i rai'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr. Rydym o'r farn bod cymalau Rhan 2 o'r Bil (Cŵn sy'n Ymosod ar Dda Byw neu'n eu Poeni) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â mater sydd wedi ei ddatganoli a bod angen diwygio Rhan 2 o'r Bil i adlewyrchu hynny. Mae Rhan 4 o'r Bil (Cyffredinol) yn nodi'r darpariaethau cyffredinol, a bydd angen eu diwygio er mwyn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, a fydd yn cyfateb i rai'r Ysgrifennydd Gwladol.
134. Mae darpariaethau'r Bil yn cyd-fynd ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru o ran hyrwyddo lles anifeiliaid a bydd yn sicrhau bod polisi a dulliau gweithredu yn fwy cydnaws, yn enwedig mewn perthynas â materion trawsffiniol sy'n gysylltiedig â gorfodi. Bydd bwrw ymlaen â

hwy yn y Bil hwn ar gyfer y DU yn rhoi'r un darpariaethau i Gymru â Lloegr a'r Alban, ar yr un pryd, er mwyn cryfhau ffyrdd o ddiogelu lles anifeiliaid a gedwir, gan gynnwys da byw, anifeiliaid anwes ac anifeiliaid mewn sŵau.

Goblygiadau ariannol

135. Bydd y darpariaethau'n arwain at godi taliadau untro a rheolaidd ar refeniw cyhoeddus (llywodraeth ganolog, yr awdurdodau lleol, Llu'r Ffiniau, yr heddlu a'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd) (cafodd asesiadau effaith eu cynnal mewn perthynas â chynnwys y Bil ar sail Lloegr yn unig/ledled Prydain Fawr/Cymru a Lloegr pan oedd angen), ac maent hefyd yn ymdrin â'r effeithiau ar fusnes. Lle y bo modd, bwriedir defnyddio pwerau sy'n bodoli eisoes i adennill costau rheoleiddio oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau (er enghraifft, bydd yr awdurdodau lleol yn codi ffioedd trwydded i dalu eu costau wrth iddynt weithredu'r cynllun trwyddedu newydd ar gyfer primatiaid).
136. Bydd unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru neu'r Senedd o ganlyniad i gymryd y pwerau hyn yn y Bil hwn yn golygu y bydd angen setliad ariannol cyfatebol mewn perthynas ag effeithiau ar asiantaethau gorfodi, gan gynnwys awdurdodau lleol Cymru, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. Fel y nodir yn y nodiadau esboniadol i'r Bil, lle y bo modd, bwriedir defnyddio pwerau sy'n bodoli eisoes i adennill costau rheoleiddio oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau (er enghraifft, ffioedd trwyddedu).

Casgliad

137. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r Bil hwn ar gyfer y DU er mwyn bwrw ymlaen, yn bennaf ar sail Prydain Fawr gyfan, â materion pwysig a phroffil uchel sy'n ymwneud â lles anifeiliaid, yn enwedig lle y bydd y nodau hynny'n elwa ar weithredu mewn ffordd a fydd yn cael ei chydgysylltu â dulliau gweithredu'r gweinyddiaethau eraill. Mae'r Bil yn sicrhau trefniadau gweithio cymharol ledled Cymru a Lloegr, ac yn sicrhau eglurder llwyr i asiantaethau gorfodi, y Llysoedd a'r cyhoedd, sy'n osgoi unrhyw gamddealltwriaeth wrth gymhwyso'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig, ac mae hefyd yn rhoi cyfle amserol i frwr ymlaen â hynny.

Lesley Griffiths AS

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd Mehefin 2021